ATODLEN 5

TRAFODIADAU EIDDO PRESWYL CYFRADDAU UWCH

## RHAN 2

PRYNWR SY'N UNIGOLYN: TRAFODIADAU ANNEDD UNIGOL

*Eithriad ar gyfer disodli prif breswylfa*

8 (1) Nid yw trafodiad yn drafodiad eiddo preswyl cyfraddau uwch o dan baragraff 3 os yw'r annedd a brynir yn disodli unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr.

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae'r annedd a brynir yn disodli unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr—

(a) os yw'r prynwr, ar y dyddiad y mae'r trafodiad ("y trafodiad o dan sylw") yn cael effaith, yn bwriadu i'r annedd a brynir fod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa iddo,

(b) os yw'r prynwr neu briod neu bartner sifil y prynwr ar y pryd, mewn trafodiad tir arall ("y trafodiad blaenorol") a oedd yn cael effaith ar ddyddiad yn ystod y cyfnod o 3 blynedd sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae'r trafodiad o dan sylw yn cael effaith, wedi gwaredu prif fuddiant mewn annedd arall ("yr annedd a werthir"),

(c) os nad oedd gan y prynwr na phriod neu bartner sifil y prynwr, yn union ar ôl y dyddiad yr oedd y trafodiad blaenorol yn cael effaith, unrhyw brif fuddiant yn yr annedd a werthir,

(d) os yr annedd a werthir oedd unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 3 blynedd y cyfeirir ato ym mharagraff (b), ac

(e) os nad yw'r prynwr neu briod neu bartner sifil y prynwr, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â'r dyddiad yr oedd y trafodiad blaenorol yn cael effaith ac sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae'r trafodiad o dan sylw yn cael effaith, wedi caffael prif fuddiant mewn unrhyw annedd arall gyda'r bwriad iddi fod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r prynwr.

(3) Nid yw is-baragraff (2)(c) yn gymwys i briod neu bartner sifil y prynwr os nad oedd y ddau ohonynt yn cyd-fyw ar y dyddiad yr oedd y trafodiad o dan sylw yn cael effaith (gweler paragraff 25(3) am ystyr "cyd-fyw").

(4) At ddibenion y paragraff hwn, caiff yr annedd a brynir ddod yn annedd sy'n disodli unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr—

(a) os oedd y prynwr, ar y dyddiad y mae'r trafodiad ("y trafodiad o dan sylw") yn cael effaith, yn bwriadu i'r annedd a brynir fod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa iddo,

(b) os yw'r prynwr neu briod, cyn-briod, partner sifil neu gyn-bartner sifil y prynwr, mewn trafodiad tir arall sy'n cael effaith ar ddyddiad yn ystod y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'r trafodiad o dan sylw yn cael effaith, yn gwaredu prif fuddiant mewn annedd arall ("yr annedd a werthir"),

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) os nad oes gan y prynwr na phriod neu bartner sifil y prynwr, yn union ar ôl y dyddiad y mae'r trafodiad tir arall hwnnw yn cael effaith, brif fuddiant yn yr annedd a werthir, a

(d) os yr annedd a werthir oedd unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 3 blynedd sy'n dod i ben â'r dyddiad y mae'r trafodiad o dan sylw yn cael effaith.

(5) Nid yw is-baragraff (4)(c) yn gymwys i briod neu bartner sifil y prynwr os nad yw'r ddau ohonynt yn cyd-fyw ar y dyddiad y mae'r trafodiad tir arall hwnnw yn cael effaith (gweler paragraff 25(3) am ystyr "cyd-fyw").

(6) Am ddarpariaeth bellach mewn cysylltiad ag annedd sy'n dod yn annedd sy'n disodli unig breswylfa neu brif breswylfa'r prynwr, gweler paragraff 23.